
11EG O EBRILL

# Ysgol Treganna

**Cylchlythyr wythnosol**




## Wythnos yma

**Ymddeoliad Finbar**

Rydym yn dymuno pob dymuniad da i'n gofalwr Finbar Hayes sy'n ymddeol heddiw ar ôl 15 mlynedd o wasanaeth yn Ysgol Treganna.Bydd yna golled enfawr ar ei ôl ac rydym yn dymuno ymddeoliad hir a hapus iawn iddo. Bydd Rhys McAloon yn cychwyn fel gofalwr newydd Ysgol Treganna ar ôl gwyliau'r Pasg.

Pasg hapus i holl deuluoedd Ysgol Treganna. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb nôl i'r ysgol ar ddydd Llun yr 28ain o Ebrill.

**Eisteddfod Sir yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gystadlu dydd Sadwrn diwethaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Cawsom lwyddiant mawr a bydd dros 120 o ddisgyblion yn cynrychioli Ysgol Treganna yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam! Da iawn i'r canlynol am ennill eu cystadlaethau dydd Sadwrn diwethaf - Morus Charles (Alaw Werin a Cherdd Dant Bl 5 a 6, Heti Jones (Cerdd Dant Bl 2 ac iau), Parti Cerdd Dant, Nel a Teifi (Deuawd Bl 6 ac iau a Deuawd Cerdd Dant). Bydd Ysgol Treganna yn cystadlu mewn 10 cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Margam ac rydym yn ddiolchgar i staff yr ysgol am eu holl waith yn hyfforddi'r disgyblion dros y misoedd diwethaf.

## Calendr

**Ysgol yn ail ddechrau i bawb 28/4/25**

**Gŵyl y Banc 5/5/25**

## Y GRhA

Diolch i'r GRhA am eu holl waith tymor yma yn codi arian i'r ysgol. Mae'r holl arian sy'n cael ei godi gan y GRhA yn mynd tuag at brynu adnoddau i bob dosbarth.

Eleni, mae'r GRhA wedi ariannu ardaloedd darnau rhydd bob dosbarth ac mae'r ardaloedd yma yn rhan o Gontinwwm Chwarae'r ysgol. Mae'r GRhA hefyd wedi prynu adnoddau ar gyfer ein hardal Dysgu Awyr Agored.

Yn ogystal, mae pob dosbarth wedi cael cyllid gan y GRhA i brynu adnoddau ar gyfer creu ardaloedd adeiladu, ardaloedd gwaith pren ac ardaloedd allanol eu dosbarthiadau.

Bydd cyfarfod cyntaf y GRhA tymor nesaf, yn Ysgol Treganna, ar ddydd Iau, y 1af o Fai am 3.30yp. Croeso mawr i bawb!

## Cinio ysgol - archebu

Gofynnwn yn garedig i chi archebu cinio ar gyfer eich plentyn cyn eu bod yn cyrraedd yr ysgol. Mae angen gwneud hyn ar Parent Pay ac mae modd archebu wythnos/ pythefnos o flaen llaw. Diolch yn fawr.

## Llwyddiant rygbi

Llongyfarchiadau mawr i dimoedd rygbi'r ysgol sydd wedi bod yn cystadlu'r wythnos yma yng nghystadlaethau'r Urdd. Rydym yn falch iawn o bawb wnaeth gystadlu. Bydd y tîm rygbi 7 bob ochr cymysg Bl 5 a 6 a'r tîm tag merched Bl 5 a 6 yn cystadlu ym mis Mai yn rownd gendlaethol yr Urdd . Tipyn o gamp! Diolch enfawr i'r staff sydd wedi bod wrthi yn hyfforddi'r disgyblion.

## Dathlu Dysgu

Diolch o galon i'r holl rieni a ddaeth i'r ysgol yr wythnos hon ar gyfer y sesiynau Dathlu Dysgu. Roedd yn hyfryd croesawu pawb i'r ysgol i ddathlu gwaith y tymor ac roedd y plant wrth eu bodd! Edrychwn ymlaen at fwy o sesiynau Dathlu Dysgu diwedd tymor nesaf.

**Aros a Chwarae dosbarth Math**

Diolch i rieni dosbarth Math am ddod i'r sesiynau Aros a Chwarae'r wythnos hon. Roedd yn gyfle i'r rhieni i weld gweithgareddau'r dosbarth ac i gyd-chwarae gyda'u plant yn y dosbarth. Diolch i'r staff am drefnu'r sesiynau hyfryd yma.

## Makaton

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.




## Patrwm Iaith

**Dyma batrwm iaith ar ôl y Pasg**

"Dwi'n hoffi"

"Dydw i ddim yn hoffi"

**Her**

"Yn fy marn i, mae…yn (ansoddair)…"

"Mae'n well gen i… oherwydd…"

**Testun trafod yr wythnos**

Cymwynas dda wnes i heddiw oedd…

**Cân yr wythnos**

Ynys - Dosbarth Nos

**Idiom yr wythnos**

Dro ar ôl tro